Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Morswyn

**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 2TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Morswyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Morswyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 186 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 132 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 11.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 15.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 45.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/04/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Morswyn yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn eu hysgol ac maent yn teimlo’n gryf ei bod yn fraint cael bod yn aelod o’r gymuned ddysgu glós. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol i adeiladu perthnasoedd hynod gadarnhaol i adnabod anghenion pob unigolyn. Mae disgyblion yn ymfalchïo eu bod yn gallu trafod unrhyw bryderon mewn amgylchedd diogel. Mae hyn yn cyfrannu’n fuddiol at gynnydd cadarn y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae athrawon yn gwrando’n ofalus ar syniadau ac awgrymiadau disgyblion ac mae hyn yn sicrhau bod y cyfleoedd a’r profiadau’n werthfawr i ddisgyblion. Darperir cwricwlwm eang a diddorol i’r disgyblion, gan ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â’r themâu. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth iddynt o’u gwaith ac yn eu hannog i roi o’u gorau. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu bob tro.

Mae ymddygiad ac agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu yn elfen nodedig. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn barchus at oedolion, ac yn gwrtais i ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf yn gwrando’n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn ymroi’n frwdfrydig i’w dysgu. Er hyn, mae tuedd iddynt droi i gyfathrebu yn Saesneg yn ystod gwersi ac amser chwarae.

Rhoddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion feithrin eu doniau creadigol a mynegiannol wrth gymryd rhan yn gyson mewn gweithgareddau chwaraeon, cyngherddau ac eisteddfodau. Er bod yr ysgol yn datblygu medrau llythrennedd, mathemateg a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, nid yw’r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd wedi datblygu’n ddigonol.

Mae’r pennaeth wedi creu gweledigaeth glir ar gyfer addysg a lles dysgwyr, a’i rhannu’n effeithiol â chymuned yr ysgol. Mae'n sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol a gofalgar i bawb. Mae ethos tîm cryf ar draws yr ysgol, lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr yn nodi llawer o gryfderau’r ysgol a meysydd i’w gwella. Er hyn, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon miniog bob tro i gefnogi staff i flaenoriaethu a gweithredu ar y meysydd i’w gwella.

## Argymhellion

A1 Miniogi prosesau hunanwerthuso gan fonitro a gwerthuso effaith yr addysgu ar y dysgu

A2 Cefnogi disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol

A3 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau llafar Cymraeg a medrau cymdeithasol sydd islaw'r disgwyl ar gyfer eu cam datblygu a'u hoedran. O'r mannau cychwyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai hynny sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfathrebu'n dda yn y ddwy iaith. Maent yn gwrando'n astud ar gyfraniadau ei gilydd a chyfarwyddiadau staff. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio geirfa berthnasol a phatrymau iaith yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n frwdfrydig am eu gwaith, er enghraifft wrth ddefnyddio ansoddeiriau dychmygus wrth ddisgrifio edrychiad Bila'r Bwgan Brain. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn hyderus wrth drafod eu gwaith, er enghraifft wrth gymharu poblogaeth Caergybi dros y degawd diwethaf. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn tueddu i droi i'r Saesneg wrth gyfathrebu â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dulliau ffoneg yn gyson ac yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Maent yn adnabod ffurf a sain llythrennau yn gynyddol hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn darllen yn hyderus wrth ddarllen ystod dda o lyfrau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnwys gwahanol destunau. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn ystyrlon, gan ymdrechu i amrywio goslef y llais yn addas i greu naws. Mae llawer yn gallu enwi a thrafod testunau awduron gwahanol gan fynegi barn am eu harddull ysgrifennu yn briodol.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar yn

llwyddiannus trwy arbrofi a dechrau creu marciau syml gyda sialc a phaent i ffurfio llythrennau a geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n gynyddol gywir, gan sillafu geiriau cyfarwydd a dechrau atalnodi'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu ar draws ystod fwy eang o ffurfiau. Maent yn dethol geiriau pwrpasol i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu hunanbortread am Samuel Jonathan Griffith (Morswyn) gan ddewis ansoddeiriau a chymariaethau addas.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer yn dwysáu eu dealltwriaeth o werth lle yn effeithiol ac yn cyfrif ymlaen ac yn ôl hyd at 10 yn hyderus. Yn dilyn eu taith i ganolfan bywyd y môr, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn fwy hyderus wrth drin data, er enghraifft wrth greu graff bloc i ddangos eu hoff anifeiliaid. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at bedwar digid yn llwyddiannus ac yn defnyddio nifer o ddulliau pen yn hyderus wrth luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau mathemateg yn hyderus i resymu, casglu, cofnodi a dadansoddi data. Er enghraifft, maent yn casglu ffeithiau, dadansoddi a chofnodi'n gywir wrth gymharu poblogaeth cyfandiroedd ar draws y byd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn ystod gyfoethog o weithgareddau yn ddigon effeithiol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. O oedran ifanc, maent yn cymhwyso eu medrau'n dda, er enghraifft wrth reoli teclyn rhaglenadwy neu wrth greu graffiau i ddangos pa gynnwys sydd fwyaf poblogaidd ar grempog. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu eu medrau digidol yn gelfydd trwy gyfleoedd gwerthfawr, er enghraifft wrth ddefnyddio rhaglen sain i gynnwys curiad i greu rap.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau ac i efelychu technegau arlunwyr Cymreig i greu darluniau trawiadol. Mae'r disgyblion hynaf yn mwynhau cymryd rhan a pherfformio mewn gweithgareddau cerddorol amrywiol, er enghraifft wrth ganu yn y côr a mwynhau cymryd rhan mewn gwersi offerynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarn at ddatblygu eu medrau corfforol. Mae hyn yn eu cefnogi i wneud amrywiaeth o ymarferion i wella eu ffitrwydd. O oedran cynnar, maent yn datblygu medrau modur mân, er enghraifft wrth ddefnyddio rholer i drin toes a thorri siapiau. Mae'r disgyblion hynaf yn mwynhau cystadlu mewn twrnameintiau chwaraeon yn ogystal â chymryd rhan mewn llawer o weithgareddau chwaraeon fel pêl-rwyd, pêl-droed a nofio yn llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu mewn awyrgylch cartrefol ac yn gwrando'n barchus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ac yn ystod gwasanaethau torfol. Mae llawer yn mwynhau cydweithio mewn parau a grwpiau, ac yn rhannu syniadau'n aeddfed wrth gymryd eu tro.

Mae disgyblion yn teimlo bod yr holl staff yn gofalu'n arbennig o dda amdanynt, a'u bod yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cyfoethog a diddorol. Er enghraifft, maent yn ymfalchïo eu bod yn cael cyfrannu at weithgareddau'r Urdd yn rheolaidd, ac wedi creu cyswllt buddiol gydag ysgol yn Iwerddon.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau ac yn canolbwyntio'n astud am gyfnodau estynedig. Drwyddi draw, mae gan yr holl ddisgyblion agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn ymroi'n frwdfrydig i'w tasgau wrth datrys problemau ac ymdrin â heriau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau ac yn dangos empathi at eraill yn naturiol. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau a'r gofal a ddangosir i eraill. Nodwedd amlwg o'r gofal i eraill yw'r modd tyner mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gofalu am y moch cwta. Mae hyn yn meithrin lles emosiynol y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt ddatblygu eu syniadau ac emosiynau drwy wahanol ddulliau.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn hynod dda, ac yn ystyried teimladau ei gilydd yn barchus. Maent yn trin oedolion a'i gilydd gyda chwrteisi ac yn cyfarch ymwelwyr yn hynaws, gan ddangos balchder yn eu hysgol a'u gwaith. Mae bron bob disgybl yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus y bydd staff yn delio'n gyflym ag unrhyw broblem petai'n codi. Mae defnydd o'r bocs teimladau yn sicrhau bod disgyblion yn gallu gofyn am gymorth gan oedolyn pe bai pryder ganddynt. Ar draws yr ysgol, mae ganddynt wybodaeth gadarn am sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhoi cynnig ar dasgau newydd a mwy heriol, ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth am sut i wella eu gwaith. O ganlyniad, maent yn dangos cymhelliant a diddordeb cyson yn eu gwaith. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n bwrpasol at yr hyn maent am ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn cryfhau eu mwynhad a'u hymrwymiad i'w dysgu yn effeithiol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn esbonio sut maent yn tyfu ffrwythau a llysiau yn ardd yr ysgol, a bod hyn yn eu hybu i fwyta'n iach. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol y tu mewn a thu allan i'r ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain ar bwyllgorau amrywiol ac i gymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn magu eu hyder a gwydnwch i ddylanwadu ar benderfyniadau ysgol gyfan. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor eco yn annog disgyblion ar draws yr ysgol i gasglu cynnyrch i fanciau bwyd lleol ac i gleifion Ysbyty Penrhos.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol â disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Mae staff yn

cydweithio fel aelodau effeithiol o dîm ac yn darparu ystod eang o weithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn cynnwys syniadau’r disgyblion yn fwriadus wrth ddarparu gweithgareddau dysgu a phrofiadau ysgogol o fewn themâu penodol. Mae’r cwricwlwm yn ymgorffori’r gymuned leol yn effeithiol, ac yn cynnwys gweithgareddau dysgu cyffrous sy’n adlewyrchu naws ddiwylliannol yr ardal. Mae hyn yn meithrin gwerthfawrogiad a dealltwriaeth disgyblion o berthyn i Gaergybi ac Ynys Môn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gweithgareddau am gymuned yr ysgol yn sail i themâu’r ysgol gyfan ac yn dyfnhau gwybodaeth disgyblion am hanes ac etifeddiaeth leol yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd dysgu a phrofiadau sy’n hyrwyddo gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae athrawon yn arbrofi wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy’n cefnogi disgyblion i ddysgu am Gymru a’r byd ehangach. Er enghraifft, mae staff yn meithrin cysylltiadau pwrpasol ag ysgol yn yr Iwerddon sy’n dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau a threftadaeth debyg a gwahanol y ddwy wlad.

Mae athrawon yn ymestyn darpariaeth y cwricwlwm drwy ymweliadau addysgol ysgogol i gyfoethogi ac atgyfnerthu’r dysgu. Yn ogystal, mae beirdd, artistiaid a chyfansoddwyr yn ymweld â’r ysgol i weithio gyda’r disgyblion ar wahanol prosiectau creadigol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i lwyddo a meithrin eu doniau creadigol yn llwyddiannus.

Mae staff yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol ac ysgogol. Mae ardaloedd tawel wedi eu datblygu i ddarparu cyfle i ddisgyblion weithio’n fwriadus mewn awyrgylch gyfforddus neu i dreulio amser i ymdawelu ac i fyfyrio cyn dysgu. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ac agweddau dysgu disgyblion ac yn eu hannog i wneud eu gorau heb ofn methu. Mae dulliau cyson yr addysgu a dysgu yn dechrau dwyn ffrwyth ac yn cyfrannu’n fuddiol at ddatblygu chwilfrydedd a mwynhad disgyblion i’w dysgu.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau diddorol. Mae staff yn defnyddio geirfa a phatrymau Cymraeg yn effeithiol i gyfoethogi iaith disgyblion, sy’n dechrau eu cefnogi i fagu hyder i siarad wrth ddysgu a chwarae. At ei gilydd, nid yw staff yn darparu cyfleoedd digon bwriadus a chyson i annog a chefnogi disgyblion i gyfathrebu’n gynyddol naturiol yn Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio ystod werthfawr o brofiadau i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion ar dasgau penodol. Er hyn, mae athrawon yn tueddu i orarwain y dysgu ac yn darparu taflenni gwaith i ddisgyblion eu cwblhau mewn gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu yn fwyfwy annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu adborth gwerthfawr i gefnogi disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Maent yn holi'r disgyblion yn drwyadl ac yn ymestyn eu dealltwriaeth yn gadarn mewn gweithgareddau yn y dosbarth a'r ardal tu allan. Mae athrawon yn rhoi amser i ddisgyblion feddwl cyn ymateb ac yn darparu cyfleoedd iddynt drafod eu gwaith â phartneriaid. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio trefniadau olrhain cynnydd yn effeithiol wrth gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn dda iawn. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar rhwng staff a disgyblion yn elfen nodedig. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad parchus a chwrtais disgyblion ac agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf tuag at eu dysgu. Mae athrawon a staff cynorthwyol yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol neu emosiynol yn cael cefnogaeth dda. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion sydd ag ADY. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol iddynt. Mae'r ysgol yn datblygu perthynas gadarn â rhieni disgyblion sydd ag ADY ac yn eu cynnwys yn y broses i adolygu cynnydd eu plant, er mwyn adnabod a gosod targedau cyrhaeddiad pellach ar eu cyfer. O dan arweiniad pwrpasol y cydlynwyr ADY, cefnogir disgyblion yn llwyddiannus gan ddarparu ystod o raglenni cefnogi priodol i gefnogi lles a datblygu medrau disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio themâu diddorol ac ymweliadau addysgol buddiol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad â Chaergybi, mae disgyblion yn creu modelau o dirnodau lleol gyda deunyddiau naturiol yn llwyddiannus. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae athrawon yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn fedrus ac yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Yn ogystal, mae staff yn trefnu ystod o deithiau ac ymweliadau buddiol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, wrth i'r ysgol fod yn rhan o 'Bartneriaeth Tirwedd Ynys Cybi' gydag ysgolion yr ardal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol a moesol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol drwy ystod o gyfleoedd amrywiol. Er enghraifft, mewn gwasanaethau, mae athrawon yn rhannu negeseuon am bwysigrwydd gofalu am y blaned. Mae athrawon yn hybu disgyblion i ailgylchu wrth i aelodau y cyngor eco fynd o amgylch yr ysgol yn casglu poteli llaeth plastig. Mae hyn yn dwysáu dealltwriaeth disgyblion o foesau a gwerthoedd pwysig yn lleol a rhyngwladol.

Mae athrawon yn hyrwyddo perthnasoedd iach yn briodol a rhoddir phwyslais amlwg ar sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i bob unigolyn o fewn ei chymuned. Mae nifer o weithgareddau a phrofiadau dysgu yn seiliedig ar barch ac empathi. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn lle gofalgar, cyfeillgar a chynhwysol. Mae'r pwyslais ar werthfawrogi amrywiaeth yn seiliedig ar yr egwyddor bod pawb yn gyfartal ac yn

elfen ganolog o waith yr ysgol. Caiff pob disgybl gyfle i gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau, er enghraifft mewn cystadlaethau perfformio, coginio a chwaraeon yr Urdd. Mae hyn yn meithrin eu hunanhyder a'u dawn mynegiannol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus, bodlon a diogel.

Mae staff yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion arwain a gwneud penderfyniadau pwysig trwy waith y pwyllgorau, sy'n dylanwadau'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu 'Diwrnodau Gwerth Chweil' i ddisgyblion rannu profiadau o'u dewis eu hunain. Yn ogystal, mae cyfle i bob disgybl gyfrannu awgrymiadau drwy bostio neges ym mocs 'Syniadau Cyngor Ysgol'. O ganlyniad, mae disgyblion yn falch o gael llais i'w dysgu sy'n cyfrannu'n gyson at eu mwynhad o ddysgu.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae arweinwyr yn cysylltu â'r rheini yn brydlon i drafod unrhyw bryder ac yn defnyddio asiantaethau allanol priodol yn effeithiol, pan fydd angen. Yn ogystal, mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar barch, ymddygiad da a chwrteisi. Mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gofalgar a chynhwysol yn treiddio drwy'r ysgol, ac mae'r holl staff yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol, 'Ffynnon pob llwyddiant, Ymdrech'. Mae hyn yn cael effaith fwriadus ar agweddau'r disgyblion at ddysgu, eu gofal at ei gilydd a'u hymddygiad cadarnhaol.

Mae'r staff yn dîm cryf ac effeithiol sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o'u cyfraniadau at sicrhau lles a diogelwch disgyblion. Mae angerdd y pennaeth wrth sicrhau bod profiadau gwerthfawr yn sail i ddysgu yn cael ei hadnabod gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gynnig profiadau cyffrous i ddisgyblion i gefnogi eu lles emosiynol a'u medrau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth i fodloni gofynion cenedlaethol y Cwricwlwm wedi cael ei mabwysiadu'n hyderus ac mae arweinwyr a staff yn llwyddo i sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at greu awyrgylch gyfeillgar, sy'n esgor ar sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i reoli perfformiad staff. Mae'r prosesau hyn yn arwain at hybu datblygiad personol staff ac i fodloni blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol yn rhannu arfer dda gydag ysgolion lleol ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu harfer effeithiol gyda staff proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae staff yn cael cyfleoedd cynhyrchiol, sy'n datblygu eu gwybodaeth broffesiynol, eu haddysgu a'u medrau arwain yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant a dderbyniodd staff i gefnogi anghenion lles emosiynol disgyblion yn gryfder o fewn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas hynod gadarn â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio gydag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol am weithgareddau'r ysgol ei rhannu'n effeithiol gyda rheini drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Mae rhieni'n barod eu cymwynas i helpu'r ysgol mewn gwahanol ffyrdd; er enghraifft, mae 'Mêts Morswyn' yn flaenllaw wrth godi arian i gryfhau'r gronfa ariannol.

Mae arweinwyr wedi adnabod agweddau i'w gwella yn y ddarpariaeth, er enghraifft medrau cyfathrebu llafar Cymraeg disgyblion a'r angen i gynllunio mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ar safonau yn ddigon manwl. At ei gilydd, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yr ysgol yn ddigon effeithiol i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r cynllun gwella ysgol diweddar yn cynnwys ystod addas o flaenoriaethau, ond nid yw'r camau gweithredu yn ddigon miniog nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar osod targedau gwelliant. Yn ogystal, nid yw adroddiadau monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn ddigon gwerthusol nac yn amlygu'r camau nesaf yn ddigon clir. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn craffu'n ofalus ar gyllid yr ysgol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion. Maent wedi dyrannu cyllid i gynyddu oriau cynorthwywyr er mwyn cynnal rhaglenni cymorth a chefnogi disgyblion yn y dosbarthiadau ac mewn sesiynau synhwyrol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cymorth drwy'r grant yn dangos cynnydd da mewn agweddau lles a chynnydd yn eu dysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn dda iawn ac yn dangos ymrwymiad llawn i waith a bywyd yr ysgol. Maent yn cefnogi athroniaeth y pennaeth ac yn gweithredu'n ddiwyd er mwyn gwneud eu gorau dros y disgyblion. Trwy ymweliadau a theithiau dysgu rheolaidd, mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau hynny sydd angen eu gwella. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy'n amlinellu bywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn dechrau cefnogi a herio arweinwyr yn briodol i gaffael gwybodaeth am gryfderau a'r meysydd i'w gwella am y dysgu a'r addysgu. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol er mwyn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   04/12/2023